



Polisi Gwrth-Fwlio ar gyfer Ysgol Uwchradd Bodedern

Mae gan bawb yn Ysgol Uwchradd Bodedern yr hawl i deimlo'n gartrefol, yn ddiogel a hapus fel bod gan bawb y gallu i gyflawni i'w llawn botensial. Nid yw bwlio o unrhyw fath yn dderbyniol yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Seilir holl ethos Ysgol Uwchradd Bodedern ar **BARCH**

Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod ein hysgol yn amgylchedd diogel, cefnogol ac urddasol i bawb. Rydym yn ymrwmo i atal a mynd i'r afael ag unrhyw fath o fwlio yn ein cymuned ysgol. Mae'r polisi wedi ei lunio drwy arweniad cynllun gwrthfwlio llywodraeth Cymru i rhieni a gofalwyr '*Herio Bwlio: Hawliau, Parch a Chydraddoldeb – rhieni a gofalwyr*'

<https://hwb.gov.wales/playlists/view/1e5b98ee-c74c-4b58-869a-048dff02f5f5/cy/1>

Mae'r ysgol yn gweithredu y gyfraith sy'n ymwneud â bwlio sydd wedi ei nodi yn canllawiau llywodraeth Cymru '*Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir*'.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-statudol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-a-gynhelir.pdf>

- 36 Deddf Hawliau Dynol 1998
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA)
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddfwriaeth tramgwyddau troseddol
- Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988
- Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997

- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Diffiniad o Fwlio:

Caiff bwlio ei ddiffinio fel achosi poendod bwriadol ac ailadroddus i berson neu grwp o bobl gan berson arall neu grwp arall, ble mae'r berthynas yn golygu anghydbwysedd o bwer.

Mae bwlio felly yn:

- Fwriadol i frifo
- Ailadroddus, yn aml dros gyfnod hir o amser
- Yn anodd i'w amddiffyn.

Gall bwlio gynnwys:

Math o fwlio	Diffiniad
Emosiynol	Bod yn angharedig, gadael allan, poenydio
Corfforol	Taro, cicio, gwthio, cymryd eiddo rhywun arall, unrhyw ddefnydd o drais
Hiliol	Pryfocio hiliol, graffiti, ystumiau
Rhywiol	Sylwadau rhywiol eglur, dangos adnoddau rhywiol, ystumiau rhywiol, sylw corfforol dieisiau, sylwadau ynghylch enw da neu berfformiad, neu cyffyrddiadau anaddas
Sylwadau llafar uniongyrchol neu anuniongyrchol	Galw enwau, coegni, rhannu sibrydion, tynnu coes
Bwlio Seiber	Bwlio sy'n digwydd ar-lein, megis drwy rwydweithiau cymdeithasol, appiau neges neu gwefannau gemau.

Nodau

- Sicrhau bod pob disgybl yn deall beth yw bwlio a'i effaith.
- Annog disgyblion i adrodd unrhyw ddigwyddiadau o fwlio.
- Cymryd camau pendant a chyflym i ddatrys unrhyw sefyllfaoedd o fwlio.
- Hyfforddi staff i adnabod, ymyrryd ac adrodd digwyddiadau bwlio.

Gweithdrefnau i Ddelio â Bwlio


- **Atal:** Rhoi addysg barhaus i ddisgyblion ynghylch bwlio trwy sesiynau ABCh, gweithdai, a chyfarfodydd grwp.
- **Adnabod:** Hyfforddi staff i adnabod arwyddion o fwlio a'u cymell i fonitro sefyllfaoedd risg.
- **Adrodd:** Sicrhau bod gan ddisgyblion a rhieni ddulliau hawdd a chyfrinachol i adrodd digwyddiadau bwlio.
- **Ymateb:** Ymchwilio i'r holl adroddiadau o fwlio yn drylwyr, cymryd camau priodol, a chynnal cyfarfodydd gyda'r disgyblion dan sylw a'u rhieni.

Camau Gweithredu

- **Ymchwilio:** Casglu tystiolaeth gan yr holl barfion dan sylw gan gynnwys dystiolaeth ysgrifenedig os yn bosibl.
- **Camau Disgyblu:** Gall hyn gynnwys rhybuddion ffurfiol, deddfau cywiro, ac mewn achosion difrifol, gwaharddiad tymor byr neu hir.
- **Cymorth i Ddiodefwyr:** Cynnig cefnogaeth a chynghor i'r rhai sydd wedi profi bwllo, gan gynnwys mynediad at wasanaethau cynghori.
- **Addysg i'r Bwli:** Gweithio gyda'r unigolion sy'n bwrw er mwyn newid eu hymddygiad trwy sesiynau un i un, cyfarfodydd gyda'u rhieni, a gweithdai rheoli ymddygiad.

GWEITHDREFNAU A ARGYMHELLWYD AR GYFER ADRODD AM FWLIO MEWN YSGOL LLWYBRAU CYMORTH

(Mewn achosion difrifol mae'n bosibl neidio camau i'r cam perthnasol)



Os bydd yn parhau

Cam 4

Uwch-aelod o'r staff (yn ystyried gwaharddiadau tymor penodol)
Yn cyfeirio at amrywiaeth o strategaethau cymorth a gyflwynir gan bersonél 'hyfforddedig' ee.

- Cyfiawnder adferol
- Cynllun diogelu
- Cymodi/cwmsela
- Hyfforddiant rheoli tymer a hunan-gymorth e.e ELSA

Cam 5

Y Pennaeth i hysbysu'r AALL a cheisio cymorth yr ALL mewn perthynas â'r dewisiadau sydd ar gael nesaf e.e. symud drwy drefniant/gwaharddiad

Beth sydd ddim yn bwlio?

- Cweryl rhwng ffrindiau
- Ymladd sy'n digwydd unwaith
- Ffrae neu anghytundeb
- Ymosodiad corfforol sy'n digwydd unwaith
- Sylwadau sarhau a chellwair
- Trosedd casineb sy'n digwydd unwaith

Monitro a Gwerthuso

- Adolygu'r polisi hwn yn flynyddol mewn cydweithrediad â staff, disgyblion, a rhieni.
- Casglu adborth rheolaidd gan yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y polisi yn effeithiol ac yn cael ei weithredu'n gywir.
- Adrodd yn flynyddol i'r corff llywodraethol ac awdurdod lleol parthed adroddiad diogelu.

Ymrwymiad yr Ysgol

Mae'r ysgol hon yn ymrwymedig i greu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei barchu ac yn gallu dysgu heb ofn bwlio. Byddwn yn cymryd pob adroddiad o fwlio o ddifrif ac yn gweithredu'n gadarnhaol i ddatrys y materion.

Cydnabyddir y polisi hwn gan holl aelodau'r ysgol ac rydym yn disgwyl i bawb gydymffurfio ag ef i sicrhau lles ein cymuned ysgol.